



**YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON,
CWMCARN, CAERFFILI
CYNNIG I AD-LEOLI'R YSGOL GYNRADD I
ADEILAD NEWYDD**

Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif
21st Century Schools and Colleges



Datganiad Dylunio a Mynediad

Mehefin 2021

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Polisi
- 3.0 Ymgynghoriad
- 4.0 Cyd-destun y Safle Presennol
- 5.0 Cymeriad
- 6.0 Tirlunio ac Ecoleg
- 7.0 Diogelwch Cymunedol
- 8.0 Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- 9.0 Symudiadau o fewn y datblygiad ac i mewn ac allan ohono
- 10.0 Hygyrchedd

Atodiadau

- A Lluniadau

1.0 CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r strategaeth arfaethedig ar gyfer adeiladu Ysgol Gynradd newydd gyda lle i 420 o blant, ynghyd â darpariaeth Gofal Plant a Chanolfan Adnoddau Addysgol Arbennig (CAA), ar ran o safle hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn, Chapel Farm, Cwmcarn.

Mae Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi bod ar ei safle presennol am 20 mlynedd; mae tua 260 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, er mai ar gyfer 80 o ddisgyblion yn unig y cafodd yr ysgol ei hadeiladu ar eu cyfer yn wreiddiol. Mae safle'r ysgol yn fach ac nid oes llawer o le y tu allan i'r adeilad. Mae'r safle wedi ei amgáu ar bob ochr ac mae'r unig fynedfa i gerbydau ar hyd stryd fach gerllaw tai lleol. Mae'r rhestr isod yn crynhoi'r problemau sy'n gysylltiedig â'r safle presennol:

- Mae gormod o ddisgyblion yn dymuno mynychu'r ysgol bresennol ac nid yw'r ystafelloedd addysgu yn addas i'r pwrpas mewn sawl ardal.
- Mae problemau cynnal parhaus yn yr adeiladau hŷn ac mae nifer o ystafelloedd dosbarth dros dro ar y safle.
- Mae llawr o broblemau hygrychedd y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad.
- Nid oes digon o le i chwarae yn yr awyr agored ar y safle, ac nid oes unrhyw gaeau chwarae o fewn pellter cerdded.
- Mae'r fynedfa i'r ysgol a'r trefniadau o ran gollwng plant sy'n dymuno derbyn addysg gynradd Gymraeg yn anodd iawn ac maent yn achosi problemau traffig ac lechyd a Diogelwch ar y brif stryd drwy Abercarn.

Nid oes lle ar y safle presennol i ehangu'r adeilad yn ddiogel, nac ailadeiladu ac ni fyddai hyn yn gwella'r problemau mynediad.

Y cynnig yw adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, sydd ar hyn o bryd ar safle bach a chyfyngedig yn Abercarn, a chodi Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar safle hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Caeodd yr ysgol honno ar 10^{fed} Hydref 2018 a chafodd yr adeiladau eu dymchwel yn 2019, heblaw am adeilad cymharol newydd ar gyfer y celfyddydau perfformio, a gafodd ei gadw ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol o bosibl.

Disgwylir y bydd yr ysgol newydd yn agor ei drysau ym mis Medi 2023.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o Raglen ehangach Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar draws Cymru, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datblygu Rhaglen Resymoli gyda'r nod o gael gwared ar leoedd gwag yn yr awdurdod a gwella'r stoc adeiladau er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Nid yw rhai ysgolion yn y lle cywir mwyach, ac felly cynigir rhai ysgolion newydd.

Nodau'r datblygiad a Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw:

- Codi safonau a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu i greu ysgol addas i'r pwrpas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif
- Darparu amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn rhoi strategaethau ar waith i wella ysgolion a deilliannau addysgol.
- Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflawniad ar draws ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig
- Darparu system addysg gynaliadwy drwy wneud gwell defnydd o adnoddau er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystâd addysg a fydd yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus leol
- Sicrhau safon Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar gyfer pob ysgol yng Nghymru gan leihau costau parhaus, y defnydd o egni ac allyriadau carbon.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn rhaglen buddsoddiad hirdymor sylweddol a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.

Roedd rhan gyntaf y Rhaglen, rhwng 2014 a mis Mawrth 2019, yn ymwneud â chynlluniau Band A. Buddsoddwyd tua £56.5 miliwn at ddefnydd addysgol a chymunedol yn yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Uwchradd Islwyn
- Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni, Campws Y Gwyndy
- Ysgol Idris Davies 3-18
- Gwelliannau i Ysgol Cae'r Drindod

Dechreuodd ail ran y rhaglen - Band B - ym mis Ebrill 2019 ac yn y ddogfen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y meysydd dan sylw oedd lleihau nifer yr ysgolion lle ceir amodau gwael a sicrhau bod ysgolion o'r maint cywir yn yr ardaloedd a'r lleoliadau cywir, fel bod modd i'r gymuned eu defnyddio hefyd. Nod y rhaglen yw darparu lleoedd digonol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg a lleihau lleoedd gwag. Mae Cam 1, Band B yn cynnwys y buddsoddiad arfaethedig hwn, ynghyd ag estyniad mawr yn Ysgol Cae'r Drindod, Ystrad Mynach.

Cafodd y cynigion eu blaenoriaethu ar sail nifer o ffactorau, gan gynnwys cyflwr yr adeiladau, rhagamcanion o ran niferoedd y disgyblion, ysgogwyr lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, roedd cyflenwi'r cwricwlwm wrth galon y cynigon hyn a nodwyd nad yw'r ysgol bresennol yn gallu bodloni gofynion y cwricwlwm oherwydd diffyg lle y tu allan, a'r diffyg ystafelloedd dosbarth.

Cyflwynodd y Cyngor Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y cynllun a derbyniodd gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyo'r cynllun.

Bydd yr adeilad yn darparu tua 3050 metr sgwâr o ardal addysgu a fydd yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbennig gyda lle i 16 disgybl, adran Feithrin gyda lle i 60, a darpariaeth ar gyfer plant sydd bron â bod yn 3 oed. Bydd hefyd yn cynnwys y cyfleusterau TGCh diweddaraf, ardal technoleg bwyd, ardaloedd chwarae arwyneb caled a meddal yn yr awyr agored, gan gynnwys man chwarae aml-ddefnydd (MUGA) tarmac a mynediad at gaeau chwarae. Bydd defnydd cymunedol o'r cyfleusterau chwaraeon hefyd yn cael ei ystyried ar amseroedd addas ac yn unol â'r amserlen. Cyflwynwyd cais llwyddiannus am arian ychwanegol hefyd ar gyfer cyfleuster Gofal plant gyda lle i 48 plentyn fel rhan o'r ysgol.

Bydd y prosiect hefyd yn ystyried dymuniadau'r gymuned o ran y defnydd o'r adeilad, sef un o ofynion arian grant Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd cynllun yr adeilad yn ceisio sicrhau bod modd agor rhan o'r ysgol at ddefnydd y gymuned yn ddiogel, sef y neuadd ac ystafell ddosbarth amlswyddogaeth.

2.0 Polisi

2.1 Cyn cyflwyno'r cais cynllunio, gofynnwyd am gyngor gan Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 6 Hydref 2020. Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn yr atodiad, fel rhan o'r Cais Cynllunio drafft, fodd bynnag, mae crynodeb o bolisiau cynllunio'r Cyngor ar gyfer y safle, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag a yw'r cynllun yn cydymffurfio â'r polisiau, neu a fyddai'n bosibl iddo wneud hynny, wedi'u cynnwys yma. Mae'r ymatebion gan y tîm Dylunio wedi'u hychwanegu mewn lliw glas lle bo'n briodol.

Polisiau Strategaeth

Mae'r safle yng Nghoridor Cysylltiadau'r De (*Southern Connections Corridor: SCC*). Yn unol â Pholisi **SP3 Strategaeth Ddatblygu – Datblygu yn y SCC**, mae'n ofynnol i gynigion datblygu yn yr SCC hybu datblygu cynaliadwy. Yn benodol, dylai cynigion yn yr ardal hon fodloni'r gofynion canlynol:

- dylent gael eu targedu ar gyfer tir sydd wedi'i ddatblygu'n barod o fewn ffiniau aneddiadau yn y lle cyntaf – *mae defnydd addysgol wedi'i sefydlu ar safle a ddatblygwyd eisoes.*
- dylent leihau teithiau mewn car drwy annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio – *bydd y safle yn darparu digon o le parcio ar gyfer ceir a bysiau, darpariaeth nad yw ar gael ar hyn o bryd ar safle presennol yr ysgol, a bydd yn cadw traffig draw o ardaloedd preswyl Cwmcarn ac Abercarn*
- dylent wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r seilwaith presennol – *mae defnydd addysgol y safle wedi'i sefydlu ar safle a ddatblygwyd eisoes. Nid oes cynnig i ddatblygu seilwaith newydd ond bydd y seilwaith priffyrdd sy'n darparu mynediad i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy diogel drwy gael ardaloedd ar wahân ar gyfer traffig staff a bysiau, ac ardaloedd lle bydd rhieni yn gollwng eu plant.*
- dylent ystyried swyddogaeth gymdeithasol ac economaidd yr ardal ac amddiffyn y dreftadaeth naturiol rhag mathau annerbyniol o ddatblygu – *bydd y datblygiad yn digwydd yn gyfan gwbl ar y safle presennol*

Mae **Polisi SP5 Ffiniau Aneddiadau** yn annog aneddiadau sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau, gan nodi lle bydd twf yn cael ei ganiatáu drwy ddiffinio ffiniau aneddiadau. Mae ffiniau aneddiadau yn diffinio'r ardal lle byddai datblygiad yn cael ei ganiatáu mewn egwyddor fel arfer, yn amodol ar yr holl bolisiau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol. Mae rhan o'r safle y tu hwnt i ffin anheddiad Abercarn. Pan gafodd ffin yr anheddiad ei ddynodi yn y lleoliad hwn roedd yn cynnwys adeiladau'r ysgol ond nid y caeau chwarae a'r ardaloedd awyr agored cysylltiedig, er mwyn eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol. O ganlyniad, mae'r safle yn cynnwys cymysgedd o dir llwyd o fewn ffiniau diffiniedig yr anheddiad a thir glas y tu hwnt i ffiniau diffiniedig yr anheddiad.

Mae'r Cyngor Cynllunio a dderbyniwyd yn nodi bod yr egwyddor o ddatblygiad ar y safle yn cael ei hystyried yn dderbyniol a bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisiau SP3 ac SP5 y Cynllun Datblygu Lleol. Dylid nodi bod yr hen ysgol, gan gynnwys y cyfleusterau chwaraeon a'r ardal awyr agored cysylltiedig, yn ffurfio un uned gynllunio gyda defnydd addysgol sefydledig.

Mae **Polisi SP6 Creu Lleoedd** yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy drwy roi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd lleol, naturiol, hanesyddol ac adeiledig a'i nodweddion arbennig. Mae ymddangosiad gweledol y cynnig arfaethedig, ei faint a'i berthynas â'r ardal gyfagos a chyd-destun yn ystyriaethau cynllunio perthnasol. Felly, bydd angen asesu'r cynnig yn ôl y canllawiau dylunio cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio a Pholisi **CDLI 6: Adeiladu Gwell Lleoedd i Fyw** er mwyn sicrhau bod modd bodloni gofynion Polisi SP6 yn llawn.

Mae **Polisi SP8 – Diogelu Mwynau** yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu adnoddau glo, tywod, graean a chraig galed y gwyddys amdanynt gan gynnal banc wrth gefn o agregau a ganiateir gwerth 10 mlynedd o leiaf yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Er bod rhan o ardal y cynnig mewn parth diogelu mwynau, mae defnydd addysgol eisoes wedi'i sefydlu ar y safle a bydd y defnydd hwn yn parhau.

Mae'r Cyngor Cynllunio a dderbyniwyd yn nodi, oherwydd hyn, nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r polisi hwn.

Polisiau'r Sir

Mae **Polisi CW2 - Amwynder** yn nodi bod yn rhaid i gynigion datblygu sicrhau na fyddai'r cynnig yn arwain at orddatblygu'r safle a/neu'r ardal amgylchynol. At hyn, mae'r polisi yn nodi y byddai'n rhaid i'r defnydd arfaethedig fod yn gydnaws â defnydd y tir amgylchynol ac na ddylai gyfyngu ar ddatblygu safleoedd amgylchynol ar gyfer eu defnydd dynodedig. Mae'r ysgol arfaethedig ar safle hen ysgol, er bod yr adeilad yn cael ei ad-leoli ar y safle. Mae adeilad yr ysgol yn cael ei ad-leoli ymhellach i ffwrdd o'r eiddo preswyl ac yn agosach at safle cyflogaeth a chyfleuster hamdden. At ddibenion cymharu, roedd arwynebedd llawr mewnol safle'r hen Ysgol Uwchradd yn 6310 m sgwâr crynswth, ond bydd arwynebedd llawr mewnol yr ysgol newydd yn 3050 m sgwâr crynswth.

Mae'r Cyngor Cynllunio a dderbyniwyd yn nodi, oherwydd hyn, bod y cynnig yn bodloni'r polisi hwn.

Mae **Polisi CW3 Ystyriaethau Dylunio – Priffyrdd** yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod modd cael mynediad i gynigion datblygu heb achosi problemau o ran diogelwch priffyrdd. Bydd modd cael mynediad i safle'r cynnig o ddau leoliad, sydd ill dau yn cysylltu â ffordd yr A467. Bydd y fynedfa gyntaf i'r gogledd o ardal y cynnig yn cael ei defnyddio'n bennaf gan rieni fel ardal gollwng plant, a bydd mynediad ar hyd y ffordd gerllaw Uned Ddiwydiannol Gerry Jones gan gysylltu â'r A467 yn y gyffordd â Darren Drive. At hyn, mae'r maes parcio presennol yn cynnwys 61 lle parcio a fydd yn cael eu defnyddio gan ddisgyblion y mae'n rhaid iddynt deithio i'r ysgol mewn car. Mae'r ail fynedfa i'r de, ac yn defnyddio'r fynedfa i'r maes parcio presennol. Bydd y maes parcio hwn yn cael ei ddefnyddio gan staff a bysiau ysgol. Mae'r fynedfa hon i'r gogledd o Priory Court yn cysylltu â'r gyffordd â Chapel Farm Terrace, sy'n cysylltu â'r A467 i'r de-ddwyrain o safle'r cais.

Mae'r Tim Dylunio wedi bod mewn cysylltiad ag adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i drafod y cynnig hwn ac mae wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'r cynigion mynediad. Mae Datganiad Cludiant yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Ymgynghoriad hwn.

Polisiau sy'n benodol i'r Ardal

Mae'r ardal i'r gogledd o'r cynnig yn ffinio ag Ystad Ddiwydiannol Tywysog Cymru sy'n cael ei hystyried yn Safle Cyflogaeth Eilaidd o dan Polisi EM2 Amddiffyn Safleoedd Cyflogaeth. Mae Ystad Ddiwydiannol Tywysog Cymru wedi cael ei ddynodi yn EM2.27 yn y CDLI mabwysiedig. Mae Polisi EM2 yn amddiffyn yn erbyn datblygu anaddas yn yr ardaloedd hyn, gan ganiatáu defnydd B1, B2 a B8 yn unig. Bydd adeilad yr ysgol arfaethedig yn agosach at y safle cyflogaeth hwn ac felly, dylid gofyn am sylwadau iechyd yr amgylchedd mewn perthynas â'r effaith o ran sŵn.

Mae'r Tim Dylunio wedi comisiynu Arolwg Acwstig o'r safle i sicrhau bod adeilad yr ysgol newydd yn bodloni gofynion statudol BB93: dylunio acwstig ysgolion – safonau perfformiad. Nid oedd hwn ar gael ar gyfer yr Ymgynghoriad hwn ond bydd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r Cais Cynllunio llawn. NID OES disgwyl i'r arolwg effeithio ar leoliad yr adeilad ar y safle nac ychwaith ar y golygon (elevations) a'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses Cyn-cyflwyno Cais Cynllunio hwn.

Mae ardal fach yn ne-orllewin y safle yn croesi Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC). Mae'r dynodiad SINC wedi'i nodi fel NH3.12 (afon Ebwy) yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae safleoedd o'r fath yn adnoddau bioamrywiaeth pwysig sy'n cynnwys ardaloedd mawr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Bydd datblygiadau fel arfer yn cael eu caniatáu lle na fyddant yn achosi niwed diangen i'r dynodiad. Os nad oes modd osgoi'r niwed posibl dylid rhoi mesurau lliniarol effeithiol ar waith i leihau'r effaith. Os nad yw hyn yn bosibl dylid darparu mesurau digolledu gyda'r nod o gadw, gwella a rheoli cynefinoedd. Bydd yr ysgol arfaethedig yn cael ei lleoli yng ngogledd-orllewin y safle, i ffwrdd o'r ardal a ddynodwyd yn SINC.

Felly, ni ystyrir bod y cynnig yn cael effaith andwyol ar y SINC o ystyried yr ardal fach o orgyffwrdd rhwng y ddwy ffin. Cyfeiriwch at y crynodeb Ecoleg yn adran 6.2.

Mae afon Ebwy i'r gorllewin o safle'r cais. Mae cornel de-orllewinol y safle mewn parth llifogydd C2. Diffinnir Parthau Llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15, ac mae parth llifogydd C2 yn cael ei ystyried yn ardal sy'n debygol o gael llifogydd ac nid oes unrhyw amddiffyniadau llifogydd arwyddocaol yno. Ni ddylai datblygiadau agored iawn i niwed gael eu caniatáu mewn ardal parth llifogydd C2. Mae datblygiadau addysg yn cael eu hystyried yn ddatblygiad agored iawn i niwed yn ôl TAN 15. Dylid nodi, fodd bynnag, bod adeilad yr ysgol newydd arfaethedig wedi'i leoli y tu allan i barth llifogydd C, a fyddai'n dderbyniol yn nhermau TAN 15. Fodd bynnag, mae'r fynedfa bresennol a'r maes parcio i'r de o'r safle yn ardal parth llifogydd C2 ac felly, dylid gofyn am sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran perygl llifogydd.

Ymgynghorwyd â Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r Ymgynghoriad hwn ac mae Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn cael ei lunio ar gyfer y safle, gweler adran 8.8. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Ymgynghoriad hwn.

Dadansoddiad

Mae rhan o safle'r cais, yr ardal lle bwriedir codi adeilad newydd yr ysgol, y tu hwnt i ffiniau anheddiad Abercarn. Cafodd ffiniau'r anheddiad ger y lleoliad hwn eu llunio o amgylch yr adeiladau ysgol presennol ac nid oeddynt yn cynnwys y caeau chwarae na'r ardal agored gysylltiedig er mwyn eu hamddiffyn rhag datblygu annerbyniol. Mae'r cynnig arfaethedig i ailddatblygu'r safle ar gyfer codi ysgol yn lle'r un sydd wedi'i dymchwel. O'r herwydd, nid yw'r ailddatblygiad arfaethedig yn ddatblygiad annerbyniol gan ei fod yn ceisio cadw defnydd addysgol y safle. Mae'r hen ysgol a'i chae chwarae ac ardal agored gysylltiedig yn ffurfio uned gynllunio sydd â defnydd addysgol sefydledig. Felly, mae'r egwyddor o ailddatblygu'r safle ar gyfer ysgol newydd i gymryd lle un arall yn dderbyniol, er bod y lleoliad arfaethedig ar gyfer adeilad yr ysgol newydd y tu hwnt i'r ffiniau anheddiad presennol.

Derbyniodd y Cyngor Cynllunio ystadegau, ac o ystyried hyn, nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r polisi mewn perthynas â Pholisi SP5.

Ni ddarparwyd unrhyw fanylion ynglŷn â graddfa a dyluniad yr adeilad ac, felly, nid yw'n bosibl rhoi sylwadau ar faterion o'r fath. Er gwaethaf sylwadau'r Pensaer Tirlunio, o ystyried graddfa a dyluniad yr adeiladau blaenorol ar y safle ac ôl-troed yr adeilad arfaethedig a ddangosir ar y cynllun safle a gyflwynwyd, ystyrir bod y cynnig yn debygol o fod yn gydnaws â chymeriad yr ardal. Fodd bynnag, gan fod rhan o'r safle y tu hwnt i ffiniau dynodedig yr anheddiad dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes lleihad sylweddol yn y lleoedd gwyrdd o fewn y safle er mwyn cynnal ei ymddangosiad cymharol agored.

Mae'r Cyngor Cynllunio a dderbyniwyd yn nodi na ddylai'r cynigion arwain at golli unrhyw ardaloedd amwynder cyhoeddus ychwaith, nac unrhyw gyfleusterau chwarae ac mae'r cynnig i sicrhau bod y cyfleusterau chwarae ar gael at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei groesawu.

NID OEDD UNRHYW WRTHWYNEBIAD MEWN EGWYDDOR I'R DATBLYGIAD NA LLEOLIAD YR ADEILAD. MAE COPI O'R YMATEBION HYN WEDI'I GYNNWYS YNGHYD Â'R CAIS HWN.

3.0 Ymgynghoriad Addysg

Gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar 14 Medi 2020 gan barhau tan 26 Hydref 2020. Roedd 95% o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y datblygiad.

Ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol fel rhan o'r broses hon:

- Rhieni, Gwarcheidwaid a gofawyr yr holl ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Pennaeth, staff a llywodraethwyr yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Bwrdd Addysg Esgobaeth yr Eglwys Gatholig
- Bwrdd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Lleol ar Addysg Grefyddol (SACRE)
- Cyrff Llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig yn eu hystyried sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig
- Aelodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Holl Aelodau Senedd Cymru, gan gynnwys yr aelodau rhanbarthol
- Yr holl Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion lleol sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Cyfarwyddwyr Addysg yr holl Awdurdodau Addysg cyfagos – Blaenau Gwent, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen
- Cymdeithasau Athrawon
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- ESTYN
- Mudiad Meithrin a darparwyr meithrin gwirfoddol
- Consortïwm De-ddwyrain Cymru (EAS)
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Rhwydwaith Rhieni
- Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Gwent a De Cymru
- Fforwm Addysg Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

3.2 Wrth ddarparu campws ar gyfer plant cyn-oed ysgol hyd at 11 oed, roedd nifer o fanteision yn cael eu rhagweld:

- Darparu amodau a fydd yn golygu bod modd datblygu cwricwlwm mwy eang ac amrywiol, a fydd yn ateb anghenion pobl ifanc yr ysgol yn well ac mewn ffyrdd a fydd yn hyfyw ac yn gynaliadwy dros y tymor hir.
- Annog pontio rhwng y cyfnodau allweddol.
- Darparu addysg fwy priodol mewn perthynas â gallu'r disgyblion, gan alluogi staff i gyfrannu at bolisiâu ac ymarfer ym mhob maes ar draws ystod oedran, yn enwedig wrth annog disgyblion abl a thalentog, a chefnogi'r rheini mae angen cymorth ychwanegol arnynt.
- Creu ysgol o faint cynaliadwy ar gyfer ardaloedd ei dalgylch drwy ddileu unrhyw leoedd gwag, gan gynnig mwy o sefydlogrwydd addysgol ac ariannol.
- Ehangu'r amrediad o weithgareddau allgyrsiol, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a'u datblygu mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy dros y tymor hirach.
- Rhoi cyfle i'r gymuned ddefnyddio'r adnoddau a'r cyfleusterau.
- Tynnu ar amrediad ehangach o arbenigedd a phrofiadau ar draws y sectorau, er mwyn datblygu profiadau dysgu disgyblion.

- Cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gellir gwella'r cyfleusterau cyn-ysgol, drwy ddarparu cyfleuster Gofal plant sy'n rhan o'r brif ysgol.

3.3 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daw'r pryderon a'r ymatebion hyn o ddogfen yr Ymgynghoriad.

Defnydd o'r safle a'i faint: Mae'r safle yn fwy na'r ysgol gynradd flaenorol a nodwyd bod y safle presennol wedi cyrraedd ei botensial ac na fydd yn gallu darparu ar gyfer y galw yn y dyfodol am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ac mae'n ddiffygiol mewn rhai ardaloedd. Mae'r safle newydd yn cynnig lle i ehangu, ynghyd â lle ychwanegol ar gyfer plant meithrin a gofal plant. Mae potensial hefyd i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar y safle.

Darpariaeth Uwchradd Cyfrwng Saesneg: Mae'r cyngor wedi cadarnhau yn ei adroddiad nad oes angen ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn yr ardal. Mae'r ddarpariaeth yn y ddwy ysgol cyfrwng Saesneg gerllaw yn ddigonol ar gyfer disgyblion eu dalgylch.

Buddsoddiad mewn Ysgolion cynradd ac Ysgolion cyfrwng Saesneg: Mae'r cyngor yn ymroddedig i ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd i bob dysgwr. Mae'r cyngor yn ceisio gwella ansawdd ysgolion yn barhaus drwy ei Raglen Buddsoddiad Cyfalaf ac unrhyw waith a nodir gan y timau lechyd a Diogelwch.

Rheoli Traffig: Pryderon yn ymwneud â chynnydd yn llif traffig i'r safle, sut bydd disgyblion yn cael eu cludo, materion yn ymwneud â mynediad a pharcio. Ar ei anterth, roedd tua 900-1000 o ddisgyblion yn mynychu'r hen ysgol uwchradd, mae'r cynigion hyn ar gyfer hanner y nifer hwnnw. Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd Dulliau teithio Dysgwyr. Mae'r safle newydd llai na milltir o'r ysgol bresennol ac ni fydd unrhyw newid i'r dalgylch. Bydd llwybrau diogel yn cael eu creu. Mae'r llif traffig wedi cael sylw drwy ddarparu mynedfeydd ar wahân yng ngogledd a de'r safle, gan gadw rhieni ar wahân i'r ardal lle mae bysiau yn gollwng disgyblion.

Cyflwr ac addasrwydd y safle presennol : Fel y nodwyd uchod, mae'r ysgol bresennol yn llawn ac mae wedi cael ei datblygu i'w potensial mwyaf. Er bod safon y dysgu yn uchel o hyd, nid yw safon y cyfleusterau yn cyrraedd y safonau gofynnol. Mae'r safle presennol ar sawl lefel ac nid yw'n gallu cynnig mynediad hygyrch llawn i'r holl ardaloedd. Nid oes fawr ddim cyfleusterau parcio ac mae'r sefyllfa yn anhrefnus wrth i rieni ollwng a chasglu eu plant, ac yn aml yn beryglus, gan fod y fynedfa o ffordd brysur yr A467 yn aml yn gyfyngedig iawn.

Yr angen am gyfleusterau ychwanegol: Mae'r cyngor yn cydnabod bod y cyfleusterau awyr agored yn ddiffygiol ac felly nid yw hyn o fudd i iechyd a lles y plant. Mae cyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r ysgol bresennol yn gyfyngedig. Mae'r ymatebion yn awgrymu bod ymgynghoreion yn cydnabod y gallai'r cynigion newydd fod o fudd i'r disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn bodloni un o amcanion rhaglen Band 2 Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd creu 'parthau' diogel mewn rhannau o'r adeilad newydd yn helpu i hwyluso defnydd cymunedol, ac yn diogelu'r disgyblion ar yr un pryd.

Twf yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: Mae mwy o alw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, oherwydd dewis rhieni a'r cyfle i blant fod yn ddwyieithog, a allai wella eu rhagolygon yn y dyfodol.

Dewisiadau amgen ar gyfer y safle: Mae'r ymgynghoreion yn cydnabod nad yw safle presennol Cwm Gwyddon yn addas mwyach a bod angen buddsoddi ynddo. Awgrymodd yr ymgynghoreion y dylid defnyddio safle Tŷ Sign. Fodd bynnag, byddai hyn yn amharu ar yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac yn effeithio ar safonau addysg presennol yr ysgol honno. Mae safle Tŷ Sign hefyd yn cynnig mwy o leoedd ar gyfer disgyblion na'r hyn sydd ei angen yn Ysgol Cwm Gwyddon, felly byddai lleoedd gwag, ac mae hyn yn rhywbeth mae'r cyngor yn ceisio ei osgoi. Byddai lleoliad y safle hefyd yn golygu na fyddai'r ysgol yng nghanol y gymuned ac y byddai y tu allan i'r dalgylch. Byddai hyn yn effeithio ar gludiant ac o bosibl yn golygu bod yn rhaid aildrefnu ysgolion eraill. Byddai'n rhaid ad-leoli disgyblion Tŷ Sign gan olygu bod carfan fwy yn gorfod cael eu lleoli mewn ysgol fwy, ar gost uwch na'r cynnig presennol. Felly, mae'r cyngor yn argymhell nad yw hyn yn ddewis addas.

Adeiladu Ysgol cyfrwng Saesneg ar safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn: Dywedodd y cyngor nad oes tystiolaeth i gefnogi ysgol cyfrwng Saesneg ar y safle hwn, oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys lleoedd gwag, teithio a defnydd cymunedol.

Adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un safle: Mae'r cyngor yn cydnabod bod y dewis hwn wedi cael ei gynnig mewn awdurdodau eraill, ond roedd o'r farn nad oedd yn ddewis addas oherwydd y seilwaith addysg cyfrwng Saesneg yn yr ardal a'r ffaith nad oedd yn adlewyrchu'r galw presennol am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai lleoli ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ar yr un safle yn arwain at amharu ar garfan ehangach o ddisgyblion a threfniadau teithio.

3.4 **Argymhellion**

Yn dilyn cyfnod yr Ymgynghoriad, a'r ymatebion a dderbyniwyd, argymhellwyd y dylid ad-leoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ac y dylid adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd pwrpasol ar safle hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn, gan gynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig.

3.5 **Ymgynghoriad cyn cyflwyno Cais Cynllunio**

O ganlyniad i'r argymhelliad uchod, mae'r wybodaeth am y prosiect wedi cyrraedd y Cam Cynllunio ac mae'n cael ei chyflwyno yma fel rhan o broses Ymgynghori cyn cyflwyno Cais Cynllunio. Mae'r gofyniad i ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio yn gymwys i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad 'mawr' (ceisiadau llawn neu amlinellol fel y'u diffinnir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012). Mae'r broses ymgynghori hon yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig a chynnig sylwadau a fydd yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad o'r ymgynghoriad.

4.0 CYD-DESTUN Y SAFLE PRESENNOL

- 4.1 Mae safle'r ysgol arfaethedig yng Nghwm Ebwy, oddi ar briffordd yr A467 rhwng Trecelyn a Crosskeys, i'r dwyrain o Gwmcarn. Maint y safle cyfan sy'n eiddo i'r perchennog yw 5.87 hectar. Mae'r safle yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac roedd Ysgol Uwchradd Cwmcarn ar y safle tan 2018. Cafodd y rhan fwyaf o adeiladau'r ysgol uwchradd eu dymchwel yn 2019. Mae priffordd yr A467 yn cysylltu'r safle â threfi cyfagos Abercarn a Crosskeys ac mae'n hawdd ei gyrraedd ar hyd y rhwydwaith priffyrdd presennol ac ar gludiant cyhoeddus.
- 4.2 I'r gogledd o'r safle mae maes parcio cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio gan y Clwb Bowlio gerllaw, Depo Parciau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chae chwarae mawr. Hefyd, i'r gogledd mae Ystad Ddiwydiannol Tywysog Cymru. I'r de o'r safle mae ardal breswyl fach, i'r dwyrain mae'r A467 ac i'r gorllewin mae cae chwarae sy'n cael ei brydlesu gan Glwb Pêl-droed Abercarn a'r ochr draw i'r cae mae afon Ebwy. Mae rhan o ffiniau de a de-orllewinol y safle yn ffinio â Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) fel y nodwyd eisoes.
- 4.3 Mae'r safle mewn lleoliad yng ngwaelod y cwm ac yn agos at afon Ebwy. Yn ôl Map Datblygu Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw llifogydd yn effeithio ar safle arfaethedig yr adeilad ond maent yn effeithio ar ardal fach o'r maes parcio presennol. Oherwydd hyn, lluniwyd asesiad Canlyniadau Llifogydd.
- 4.4 Mae'r safle yn un agored, gwyrdd gyda choed yn rhedeg ar hyd y rhan fwyaf o'r ffiniau, ac mae ardal breswyl i'r de-ddwyrain. I'r gogledd-orllewin mae ardal ddiwydiannol /gwasanaeth cludiant. Nid oes unrhyw arwynebau caled ar y safle, nac unrhyw gwlferti a bydd y caeau agored presennol yn cael eu defnyddio i ddarparu cynllun draenio tir ar gyfer y dŵr ffo.
- 4.5 Mae un o adeiladau'r Ysgol Uwchradd yn dal i sefyll ar y safle, sef adeilad y Celfyddydau Perfformio. Cafodd yr adeilad hwn ei gadw gan ei fod yn gymharol newydd pan gaeodd yr ysgol ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r ddarpariaeth Addysg ar y safle yn y dyfodol.
- 4.6 Gwyddys bod amodau'r safle yn ffafriol – mae Adroddiad Archwiliad Safle wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad.
- 4.7 Mae dwy fynedfa ar y safle ar gyfer cerbydau. Cafodd y fynedfa yn y de ei defnyddio gan yr Ysgol Uwchradd ar gyfer ei holl draffig. Er bod hyn yn ddigonol roedd materion diogelwch hefyd gan fod bysiau, a cherbydau staff a rhieni yn cymysgu. Mae cyfle hefyd i greu mynedfa o'r ffin ogleddol o faes parcio cyhoeddus a ddefnyddir yn achlysurol, sy'n arwain at yr A467 drwy Ystad Ddiwydiannol Tywysog Cymru. Defnyddir y fynedfa hon gan y caeau chwarae a'r clwb bowlio cyfagos.



Ffigur 1.0 Llun gan Google Earth: NTS



Ffigur 1.1 Golygfa lloeren o'r safle a'r tir amgylchynol, trwy garedigrwydd Google Maps. Mae ardal y cais wedi'i hamlinellu yn goch, mae ardal berchnogaeth y safle wedi'i ddangos yn las.

4.3 Cyfleoedd a Chyfngiadau'r Safle

Mae Ffigur 1.1 uchod yn dangos cyd-destun y safle yng Nghwmcarn a'r ardaloedd cyfagos.

Cyfleoedd

- Mae'r safle yn fawr ac mae digon o le agored i ddatblygu heb lawr o gyfyngiadau (dim gwasanaethau tanddaearol, dim adeiladau ar ôl i'w dymchwel)
- Gellir defnyddio'r fynedfa bresennol i gerbydau ac mae llwybr i'r ysgol eisoes ar gael
- Gellir lleihau llif y traffig drwy greu mynedfa newydd i gerbydau o'r gogledd
- Gellir defnyddio'r maes parcio isaf yn y de a'r maes parcio cyhoeddus cyfagos yn y gogledd
- Mae cysylltiadau da â phriffordd yr A467
- Mae llwybr tanffordd yn mynd o dan yr A467 o Gwmcarn gan gynnig llwybr diogel i'r ysgol
- Bydd cyfeiriadaeth yr adeilad yn gwneud y gorau o'r golau ac egni goddefol
- Oherwydd bod y cwm yn gul bydd yr adeilad yn cael ei ddylunio fel bod yr ystafelloedd dosbarth yn wynebu i'r dwyrain a'r gorllewin gan y bydd ochr y cwm yn cysgodi'r façade rhag haul isel y gaeaf
- Ardal chwarae gerllaw y gallai'r ysgol ei defnyddio
- Golygfeydd gwych i gyfeiriad y caeau, coed a'r mynyddoedd gerllaw

Cyfngiadau

- Mae'r safle yn fwy cul yn y pen gogleddol felly mae'r ardal chwarae meddal yn gyfyngedig
- Mae'r ardal sy'n cael ei gadw i'r de yn cyfyngu ar ddatblygu yn yr ardal honno, ynghyd â'r angen i ystyried datblygu pellach ar y safle yn y dyfodol
- Nid yw'r maes parcio isaf yn union y tu allan i'r ysgol
- Nid oes unrhyw lwybrau beicio uniongyrchol

Ffigur. 1.2 Golygfa lloeren 2 o'r safle trwy garedigrwydd Google Maps

Ffotograffau o'r Safle Presennol:



Golygfa 1 : Golygfa i'r dwyrain o'r fynedfa bresennol i gerbydau



Golygfa 2 : Golygfa i'r gogledd a Bloc C a gadwyd



Golygfa 3 : Golygfa i'r de i Priory Court



Golygfa 4: I'r gogledd-orllewin i gae pêl-droed Abercarn



Golygfa 5: Mae parcio isaf presennol



Golygfa 6: Maes parcio isaf presennol



Golygfa 7: De-ddwyrain i'r Celfyddydau Perfformio - Bloc C



Golygfa 8: De-ddwyrain i'r Celfyddydau Perfformio - Bloc C



Golygfa 9: Ffens ar y ffin ogledd-ddwyreiniol



Golygfa 10: Golygfa y tu allan i ystafell newid y clwb pêl-droed



Golygfa 11: Golygfeydd y tu allan i safle'r maes parcio cyhoeddus



Golygfa 12: Golygfeydd o'r maes parcio cyhoeddus a'r



Golygfa 13: Golygfa o'r ffin ogleddol o'r maes parcio cyhoeddus



Golygfeydd i'r gogledd y tu allan i'r safle i gyfeiriad y maes parcio cyhoeddus



5.0 CYMERIAD



Ffigur 2.0 Cynllun Arfaethedig y Safle NTS

5.1 Cynllun y Safle (Cyfeiriwch at lun 4661 P103)

5.2 Mae ardal y datblygiad tua 2.95 hecтар o faint a bydd adeilad yr ysgol i'r gogledd-orllewin o'r safle ar ardal o laswellt presennol. Bydd hyn yn golygu y gall rhieni ddefnyddio'r maes parcio cyhoeddus presennol, ychydig y tu allan i'r safle, i ollwng eu plant. Bydd hyn yn lleihau'r traffig sy'n dod i mewn i'r dref o'r safle drwy'r ardal breswyl a bydd yn golygu bod yr ardal lle mae rhieni yn gollwng eu plant yn cael ei chadw ar wahân i'r ardal fysiau, gan wella diogelwch a llif y traffig. Bydd ffordd fynediad newydd yn cael ei hadeiladu o'r maes parcio presennol yn y gogledd at y ffin a'r fynedfa i safle newydd yr ysgol. Yn arwain o'r fynedfa newydd hon, bydd 17 lle parcio ar gyfer staff, y bydd 4 ohonynt yn lleoedd hygrych, ynghyd â lle ar gyfer 4 beic modur. Yn y maes parcio presennol i'r de bydd 54 lle parcio. Bydd cyfanswm o 71 o leoedd parcio yn cael eu darparu ar gyfer ceir.

Bydd bysiau yn gollwng disgyblion i'r de o'r safle, gan ddefnyddio'r ffordd fynediad bresennol. Bydd y maes parcio isaf wedi cael ei farcio ar gyfer staff. O'r maes parcio isaf hwn, bydd Llwybr diogel newydd yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd yr ysgol newydd a bydd yn cynnwys llwybr/ramp sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd y llwybr wedi'i oleuo.

5.3 Bydd cerbydau nwyddau yn dod i mewn i'r safle drwy'r fynedfa newydd i'r gogledd a byddant yn parcio y tu allan i ochr ogledd-ddwyreiniol yr adeilad, lle mae'r gegin.

5.4 Mae cyfleusterau chwaraeon a chwarae awyr agored ar gael i ddisgyblion. Bydd yr ysgol yn gallu defnyddio'r caeau awyr agored sydd ychydig bellter i ffwrdd ar droed yng nghae clwb pêl-droed Abercarn. Gellir defnyddio'r cae pêl-droed llai ar y safle dros dro nes bydd gweddill y safle wedi cael ei ddatblygu. Bydd cwrt gemau MUGA newydd yn cael ei ddarparu ar dir yr ysgol.

Bydd y tir o amgylch yr ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ardaloedd chwarae arwyneb caled a meddal, ynghyd ag offer chwarae, ardal gysgodol, seddau ac amffitheatr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a digwyddiadau. Mae'r manylion hyn wedi'u dangos yn fwy manwl yn y Cynigion Tirlunio Dangosol sydd wedi'u cynnwys yn y Cais Cynllunio ac yn adran 6.5

5.6 Bydd beicwyr yn defnyddio'r llwybrau presennol i safle newydd yr ysgol a bydd y llochesi Beiciau i'r gogledd a'r de o'r adeilad yn darparu lle ar gyfer cyfanswm o 44 beic.

5.7 Bydd gweddill y safle a'r adeilad sy'n cael ei gadw yn aros ym mherchnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r bwriad yw y bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad addysg yn y dyfodol.

5.8 Cynllun a Graddfa

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r lluniadau a'r dogfennau a gafodd eu cyflwyno fel rhan o'r cais.

Yn ystod y broses ddylunio, cafodd dewis eang o opsiynau adeiladu a ffurf eu hystyried cyn penderfynu ar y cynllun a gyflwynwyd.

Elfennau cynradd y cynigion dylunio hyn yw:

1. Dyluniad, cynllun a defnyddiau'r ysgol newydd.
2. Dyluniad a chynllun y gwaith allanol a thirlunio.

5.8 Athroniaeth ddylunio'r bloc addysgu newydd yw darparu adeilad y mae'n bosibl ei adnabod fel cyfleuster dysgu yr 21^{ain} Ganrif. Cafodd y penderfyniadau yn ymwneud â lleoliad y safle eu nodi'n flaenorol. Mae'r penderfyniad i leoli adeilad yr ysgol yn rhan ogleddol y safle yn seiliedig ar y canlynol:-

- Defnyddio'r maes parcio cyhoeddus presennol fel ardal lle gall rhieni ollwng eu plant
- **Cadw** ardal barcio'r rhieni **ar wahân** i'r llwybr bysiau
- Osgoi llif traffig drwy ardaloedd preswyl
- Roedd ardal ogleddol y safle yn ardal agored gwyrdd heb unrhyw nodwedd adeiladu, dim arwynebau caled, na gwasanaethau presennol



Agweddau Dylunio Allweddol:

Cadw'r fynedfa bresennol, gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl gan gynnwys llwybrau diogel i gerddwyr

Creu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr yng ngogledd y safle yn agosach at yr adeilad


Creu mynedfa ddiogel, hygyrch i'r safle o'r ddwy ochr

Cyfeiriadaeth: Er bod y brif fynedfa i'r gogledd a'r de, mae'r cwm yn gul iawn felly ni fydd haul isel yn dod i mewn i'r ystafelloedd dosbarth. Mae canopïau yn cynnig rhywfaint o gysgod.

Grwpio'r dosbarthiadau babanod ac iau gyda'i gilydd i rannu'r un ardaloedd awyr agored

Ffigur 3.0 Cynllun y Llawr Gwaelod Arfaethedig yn ei gyd-destun:NTS

- 5.9 Bydd yr Ysgol yn dilyn y fformat a ddefnyddiwyd ar gyfer ysgol gynradd flaenorol newydd yr 21^{ain} Ganrif yn Ysgol Idris Davies, Rhymni. Bydd yn ddatblygiad unllawr gyda thair elfen adeiladu:
- Uchder dwbl yn y gogledd-ddwyrain yn cynnwys y neuadd a'r gegin.
 - Bloc addysgu unllawr yn rhedeg o'r gogledd i'r de, gyda'r ystafelloedd wedi'u trefnu o amgylch 'stryd ganolog'. Bydd y stryd yn cynnwys ardaloedd dysgu hyblyg ar gyfer TG, llyfrgell a thechnoleg bwyd ynghyd ag ystafelloedd hyblyg yn addas i grwpiau y gellir eu defnyddio ar gyfer dysgu arbenigol neu i roi cymorth i ddisgyblion. Mae sylw diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi'r math hwn o ddyluniad, gan ei fod yn cynnig ardaloedd dysgu anffurfiol ychwanegol yn ardal y stryd sydd wedi bod yn ddefnyddiol yn ystod y pandemig presennol.
 - Uned Gofal plant unllawr gysylltiedig i'r gogledd o'r bloc dysgu.
- Mae ffurf yr adeilad yn creu llinell naturiol sy'n cadw'r ardaloedd cyhoeddus a phreifat ar wahân.
- 5.10 Mae'r brif fynedfa yn arwain, o'r de a'r gogledd, at dderbynfa eang ddiogel. Mae set o ddrysau sgrin o'r cyntedd yn cynnig llinell ddiogelwch ychwanegol rhwng yr ysgol a'r ardaloedd cymunedol.
- Mae ffurf y cynllun yn golygu bod modd cloi'r drysau i brif asgell yr ystafelloedd dosbarth, gan alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r neuadd a'r cyfleusterau toiled wrth ddefnyddio'r adeilad y tu allan i oriau ysgol.
- 5.11 Mae ardal amgaeedig pren yn cynnwys y tanciau chwistrellu i'r de o'r adeilad (y tu allan i'r ystafell offer) ac mae ardal amgaeedig pren ar gyfer cadw gwastraff ym maes parcio'r gogledd.
- 5.12 Mae cyfeiriadaeth a dyluniad yr adeilad yn gwneud y mwyaf o'r golau naturiol, i'r graddau bod y safle yn caniatáu hynny, gyda chyfeiriadaeth de-ddwyrain/de-orllewin a'r defnydd o oleuadau lantern dros y 'stryd' ganolog. Mae'r stryd ganolog yn caniatáu i olau naturiol ddod i mewn i'r coridorau sydd hefyd yn dod â golau i gefn yr ystafelloedd dosbarth drwy sgriniau gwydrog.
- 5.13 Mae'r ystafelloedd dosbarth yn rhedeg oddi ar y stryd ganolog mewn parau gyda mynediad i ystafelloedd cotiau a thoiledau rhyngddynt. *Gweler Ffigur 3.0 uchod*. Hefyd, mae gan bob ystafell ddosbarth fynediad uniongyrchol i ardal ddysgu allanol a'r ardaloedd chwarae arwyneb caled/meddal. Bydd yr ystafelloedd dosbarth yn cael eu dylunio i gael eu hawyru'n naturiol a byddant yn gwneud y gorau o'r golau naturiol.
- 5.14 Mae'r ardal Gofal plant wedi cael ei dylunio i weithredu'n annibynnol ar yr ysgol ond mae'n gysylltiedig â'r ysgol hefyd drwy goridor gerllaw'r adran feithrin a'r adran weinyddol. Mae'n cynnwys ei mynediad ei hun i ardaloedd chwarae arwyneb caled a meddal. Gall yr ysgol neu staff gofal plant ddefnyddio ystafell gyfarfod ger y cyntedd canolog, yn agos at y prif fynedfeydd.



Ffigur 4.0: Cynllun Arfaethedig y Llawr Gwaelod:NTS

5. 15 Golygon Arfaethedig




Golwg Gogledd Ddwyrain

Eglurhad


- 1 To alwminiwm â semau sefyll a ffasgia gwrthddallu – llwyd
- 2 Rendr lliw – gwyn/melyn
- 3 3 Gwaith brics coch aml-wyneb llyfn
- 4 Paneli cladin lliw
- 5 Llenfuriau alwminiwm – wedi'u gorchuddio â phowdr polyester RAL 7016
- 6 Drysau/ffnestri/ffnestri dellt alwminiwm – wedi'u gorchuddio â phowdr polyester RAL 7016
- 7 Cafnau/pibellau dŵr alwminiwm –wedi'u gorchuddio â lliw i'w gadarnhau
- 8 Canopïau brise soleil – to gwydr ar ddur wedi'i orchuddio â pholyester
- 9 Pren astellog agos ar ffrâm ddur
- 10 Canopïau allanol ar eu traed eu hunain ar bolion dur wedi'u gorchuddio â lliw – lliwiau i'w cadarnhau
- 11 Drysau rholer dur – RAL 6005



Golwg De Orllewin



Golwg De Ddwyrain



Golwg Gogledd Orllewin

Cyfeiriwch at luniad 4661 P106 i weld manylion llawn y golygon a'r defnyddiau.

5.16 Ymddangosiad

O ran estheteg, mae'r adeilad yn defnyddio cyfuniad o ddefnyddiau traddodiadol a chyfoes i greu cyfleuster llachar a deniadol i ddisgyblion a'r gymuned ehangach.

Er na fydd yr ysgol yn agos at yr ardaloedd preswyl gerllaw, bydd y defnyddiau a ddewisir yn gydnaws â'r bensaernïaeth leol ac yn defnyddio cyfuniad o ddefnyddiau traddodiadol, fel brics a rendr, yn ogystal â defnyddiau cyfoes, fel to sêm sefydlog (*standing seam roof*), paneli cladio lliwgar a chanopïau gwydrog. Lle bo'n bosibl, bydd defnyddiau cynaliadwy a naturiol yn cael eu defnyddio. Bydd y rhain yn gydnaws â'r amgylchedd naturiol a harddwch yr ardal ond byddant hefyd yn rhoi teimlad cyfoes i'r adeilad ac yn helpu i ddiffinio'r datblygiad fel cyfleuster dysgu ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

Bydd dyluniad yr ysgol newydd yn cyflwyno adeilad atyniadol sy'n addas i'r pwrpas ac a fydd yn defnyddio defnyddiau o ffynonellau cynaliadwy gan gadw'r gorau o draddodiadau pensaernïaeth ac adeiladau lleol, yn ogystal â bod yn effeithlon o ran egni ac adnoddau.

Mae'r golygon wedi cael eu dylunio i roi hunaniaeth benodol i'r gwahanol elfennau adeiladu. Mae'r neuadd, cyfleusterau gofal plant a'r ystafelloedd dosbarth cyffredinol yn hawdd eu hadnabod oherwydd y newid mewn defnyddiau a lliwiau. Mae'r dyluniad yn cynnwys cymysgedd o waliau wedi'u rendro ar y prif floc dysgu i roi ymddangosiad mwy golau a'r defnydd o baneli cladio lliwgar er mwyn dynodi mynedfa pob ystafell ddosbarth a rennir. Defnyddir y paneli hyn ar y cyd â brics coch ar gyfer y Neuadd ac ardaloedd y gegin i wahaniaethu rhwng y ddau ddefnydd.

Mae'r ffenestri a llenni'r waliau o alwminiwm wedi'i orchuddio â phowdr lliw ac maent yn torri ar undonedd yr ardaloedd rendr a brics. Mae'r drysau hefyd o alwminiwm wedi'i orchuddio â phowdr gan gyfateb â'r ffenestri. Mae paneli o lenni alwmimiwm yn gwneud i'r adeilad edrych yn llai o faint ac yn dod â llif o olau i'r ystafelloedd dosbarth a'r neuadd. Mae lanteri uwchben y 'stryd' ganolog yn dod â llawer o olau naturiol ac awyriad i'r ardaloedd addysgu agored. Mae'r to sêm sefydlog gwrth-llacharedd yn ychwanegu teimlad cyfoes gan gynnig ateb ymarferol i'r goleddf graddol ar yr adeilad.

Mae canopïau gwydrog wedi'u gosod ar yr ystafelloedd dosbarth i'r de a'r ystafelloedd dosbarth fydd yn cael eu heffeithio gan fuddion gwres. Mae'r mynedfeydd wedi'u diffinio gan ganopi mwy â tho serth i nodi'r prif fynedfeydd yn y gogledd a'r de.



Mae'r adeiladau allanol lle cedwir y tanciau chwistrellu a'r storfa biniau wedi'u cladio â byrddau pren i roi teimlad ysgafnach na'r holl ddarnau mawr.



Ystafelloedd dosbarth Golygon de-orllewin

Bloc addysgu – Ystafelloedd dosbarth y Babanod ar yr ochr dde-orllewinol. Mae paneli llen mawr ar y wal yn bwrw digon o olau i'r ystafelloedd dosbarth dwfn. Mae paneli o gladin mewn lliwiau llachar yn torri ar y rendr golau ac yn dynodi mynedfeydd yr ystafelloedd dosbarth.

Mae'r canopïau gwydrog /Brise Soliel yn cynnig rhywfaint o gysgod i'r ystafelloedd dosbarth.



Arwydd yr ysgol ar y neuadd

Mynedfa'r gogledd-ddwyrain

Rendr melyn i'r cyfleusterau Gofal Plant

Parcio i staff a pharcio hygyrch

Mynedfa'r gogledd



Mynedfa'r de a chanopi gwydrog o ddur â haen powdr

MUGA ac ardal chwarae arwyneb caled

Lanteri to

To sêm sefydlog

Mynedfa'r de



6.0 Arolwg Ecoleg, Tirlunio a Choedyddiaeth

6.1 Cynhaliwyd arolwg Ecoleg a Bioamrywiaeth gan Wildwood Ecology Ltd ynghyd ag Asesiad Effaith Ecolegol. Mae copi o'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys fel rhan o'r wybodaeth cyn cyflwyno cais cynllunio. Daw'r holl wybodaeth isod o Adroddiad Asesiad Effaith Ecolegol WWE20321 EclA Rev A.

6.2 Crynodeb

Diben	- Cafodd Wildwood Ecology ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y cleient) i gynnal Asesiad Effaith Ecolegol (EclA) o Gwm Gwyddon, Cwmcarn. - Mae'r safle yn destun cais cynllunio ar gyfer ysgol newydd.
Methodoleg	- Cynhaliwyd Asesiad Clwydfannau Rhagarweiniol (PRA) ac Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) yn cynnwys astudiaeth ddesg ac arolwg maes ym mis Medi 2020 gan ddilyn arferion gorau yn unol â <i>Bat Surveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines</i>, 3ydd argraffiad (Collins 2016). - Cynhaliwyd arolwg ymlusgiaid ar y safle ym misoedd Medi a Hydref 2020. - Cynhaliwyd arolwg o weithgarwch ystlumod ar y safle ym mis Medi 2020 gan ddilyn arferion gorau yn unol â <i>Bat Surveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines</i>, 3ydd argraffiad (Collins 2016). Disgwylir y bydd ail arolwg yn cael ei gynnal yn y gwanwyn 2021.
Prif faterion	- Cadarnhawyd bod ystlumod lleiaf cyffredin yn clwydo yn yr adeilad ar y safle a gwelwyd 6 ystlum yn ymddangos o bedwar lleoliad gwahanol ym mhen deheuol yr adeilad. - Ni chafwyd cadarnhad bod unrhyw ymlusgiaid ar y safle. - Cadarnhawyd bod draenogod yn defnyddio'r safle.
Argymhellion	- Mae'n rhaid cael trwydded Rhywogaethau a Warchodir Ewropeaidd ar gyfer ystlumod cyn y gellir gwneud unrhyw waith ar yr adeilad (petai angen gwneud unrhyw waith) ac ar y safle yn gyfreithiol. Bydd hyn yn gofyn am roi mesurau lliniarol ar waith (amseru'r gwaith, cynnal clwydfannau, goruchwyllo gwaith risg uchel gan ecolegydd) a mesurau digolledu (darparu rhagor o nodweddion clwydo yn yr adeilad a chynnal llinellau hedfan tywyll). - Cynghorir rhai argymhellion pellach yn ymwneud â dileu rhywogaethau ymledol, cymryd gofal wrth dynnu llystyfiant oherwydd adar sy'n nythu, draenogod a phathewod, a methodoleg rhagofalus i atal effeithiau llygredd yn afon Ebwy. - Rydym hefyd yn argymhell bod yr ardaloedd hyn yn cael eu cadw a'u gwella ar gyfer infertebratau, gan fod rhan o'r safle yn cael ei ystyried yn fosaig agored ar dir a ddatblygwyd eisoes (cynefin sy'n flaenoriaeth).
Casgliadau	- Mae angen cynnal arolwg pellach i ddeall yn llawn effeithiau ecolegol y cynigion, ac mae'r adroddiad hwn yn cael ei ddarparu dros dro. - Bydd yr adroddiad ecolegol hwn yn ddilys am gyfnod o 18 mis o ddyddiad yr arolwg diwethaf – h.y. tan fis Ebrill 2022.

6.3 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Cafodd Wildwood Ecology ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y cleient) i gynnal asesiad effaith ecolegol (EclA) yng Nghwm Gwyddon, Cwmcarn. Mae'r safle yn destun cynlluniau ar gyfer adeiladu ysgol newydd.

Safleoedd dynodedig

Rydym yn argymhell bod mesurau rheoli llygredd yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol (CEMP) er mwyn sicrhau nad oes effeithiau yn gysylltiedig â llygredd yn SINC afon Ebwy – bydd hyn yn ystyried arferion gwaith gerllaw'r afon ei hun, ac ni chaniateir roi tanwydd mewn peiriannau o fewn 10m o goridor yr afon, a rhaid darparu offer gollwng ar y safle, a staff sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w defnyddio petai'r angen. Mae'n bosibl y bydd angen rheoli llwch hefyd, yn dibynnu ar faint y gwaith yn ardal y maes parcio isaf.

Mae safleoedd dynodedig eraill gerllaw'r safle yn ddigon pell i ffwrdd felly nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith ar eu nodweddion dynodedig o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig.

Rhywogaethau ymledol

Rhaid llunio cynllun difa ar gyfer Jac y neidiwr a Clymog Japan (a rhaid parhau â'r cynllun yn achos Clymog Japan), i atal y planhigion hyn rhag ymledu y tu hwnt i ffiniau'r safle.

6.4 CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU GWARCHODEDIG

Mae'r argymhellion yn gysylltiedig â rhywogaethau gwarchodedig wedi'u dangos yn Nhabl 12.

Tabl 12 – Argymhellion.

Rhywogaeth	Argymhellion
Ystlumod	- Mae'n rhaid cynnal arolwg ystlumod ychwanegol yn y gwanwyn i ganfod a oes ystlumod yn bridio yn y glwydfan yn yr adeilad ar y safle. - Mae'n rhaid darparu cynllun goleuo i ddangos y bydd coridorau tywyll yn cael eu cadw o amgylch y safle, heb unrhyw oleuadau uwchlaw lefelau presennol yn y lleoliadau hyn (gweler Atodiad III). - Cynghorir y dylid gosod nodweddion clwydo ar gyfer ystlumod yn yr adeiladwaith – bydd hyn y gwella'r safle ar gyfer ystlumod. Petai'r adeilad sy'n weddill yn cael ei ddymchwel, yna bydd angen mesurau lliniarol a digolledu, yn unol â thrwydded EPS. Byddai angen cynnig rhagor o fesurau digolledu ar gyfer nodweddion lliniarol/digolledu yn sgil colli'r nythfa flaenorol yn 2018.
Adar nythu	Os bydd yn rhaid symud unrhyw ardaloedd sy'n addas i adar nythu, yna bydd unrhyw waith adeiladu (bydd yr arolwg ystlumod yn y gwanwyn yn cynnwys chwilio am nythod) / clirio llystyfiant, bydd hyn yn digwydd y tu allan i dymor nythu'r adar. Os bydd yn rhaid clirio yn ystod y tymor nythu (fel arfer rhwng 1 Mawrth a 31 Awst, er bod adar weithiau'n nythu y tu hwnt i'r dyddiadau hyn mewn amodau addas), bydd yn rhaid cynnal arolwg o adar bridio a bydd yn rhaid i hwn gael ei gynnal gan unigolyn â'r cymwysterau addas. Dylid gwarchod unrhyw nythod actif sy'n cael eu canfod nes bod yr adar ifanc wedi hedfan y nyth. Os bydd rhywogaeth Atodlen 1 yn gysylltiedig (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad - http://www.jncc.gov.uk/page-3614), rhaid dyfeisio a gweithredu dulliau i wneud iawn am yr effeithiau, e.e., colli safleoedd nythu.
Mamaliaid nad ydynt yn hedfan	- Bydd pob gwaith cloddio yn darparu dihangfa, os nad oes modd eu gorchuddio ar ddiwedd pob dydd. - Bydd yr holl gemegion, tanwyddau a defnyddiau yn cael eu storio'n ddiogel i ffwrdd o fynedfeydd anifeiliaid. - Bydd y gwaith o dorri llystyfiant yn cael ei wneud yn ofalus a fesul cam er mwyn osgoi lladd neu anafu draenogod – drwy weithredu fesul cam bydd modd cadw llygad ar y cylch torri. Lle bydd haenau mwy dwys o llystyfiant, bydd y rhain yn cael eu harchwilio â llaw (chwiliad blaenau bysedd) gan ecolegydd. - Bydd bylchau yn cael eu cadw yn ffens y terfyn er mwyn galluogi draenogod i groesi'r safle.
Pathewod	- Argymhellir tynnu'r llystyfiant ar y ffin i'r gogledd o'r safle ger y fynedfa rhag ofn – bydd hyn yn cynnwys gwirio'r ardal cyn dechrau ar y gwaith a sgwrs bocs tŵls gan ecolegydd (trwydded pathewod). Os oes unrhyw dystiolaeth bod pathewod ar y safle, yna bydd y gwaith yn dod i ben ar unwaith a gofynnir am drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru. - Gellir gwneud iawn am golli unrhyw gynefin addas drwy gynllun plannu newydd (neu'n ddelfrydol trawsblannu o'r safle presennol i leoliadau newydd). - Bydd unrhyw blanhigion newydd a fydd yn cael eu plannu yn rhywogaethau brodorol o darddiad lleol.
Infertebratau	- Os bydd yr ardal i'r dwyrain o'r safle yn cael ei dynnu neu ei reoli, bydd angen plannu rhagor o blanhigion i gynnal infertebratau. Gellir creu pantiau gan ddefnyddio pridd sy'n isel o ran maetholion (os yw'n cael ei gario i'r safle – neu symud defnydd sy'n isel o ran maetholion o fewn y safle i'r ardaloedd hyn) a phlannu plygiau o rywogaethau gan gynnwys: clafflys y maes, pysen y ceirw, llysiau'r gingroen, pannog felen, melyn yr hwyr, meillionen goch, plucen felen, llysiau'r dryw, y bengaled ac eithin. - Argymhellir plannu ardaloedd blodau gwyllt eraill ynghyd â gadael i ymylon glaswelltiroedd dyfu'n dwmpathog (llai o waith rheoli/torri gan reoli'r prysg yn unig) – bydd hyn yn helpu i gynnal glaswellt blodeuol a fydd yn ei dro yn cynnal infertebratau drwy'r flwyddyn.
Ymlusgiaid	Dim angen rhagor o arolygon na gweithredu pellach mewn perthynas â'r grŵp rhywogaeth hwn.

6.5 CASGLIADAU CYFFREDINOL

Mae angen cynnal arolwg pellach i ddeall defnydd ystlumod o'r safle. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddiweddarau ar ôl i'r arolwg gael ei gwblhau, ynghyd ag argymhellion llawn ar gyfer gwella.

Bydd yr arolwg hwn yn cael ei gynnal a'i gyflwyno fel rhan o'r Cais Cynllunio ffurfiol.

6.5 Tirlunio

Mae'r dyluniad amlinellol ar gyfer tirlunio caled a meddal wedi'i gynnwys ar luniadau 4661 P104 a P105 sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r wybodaeth cyn cyflwyno cais.

Cafodd y lluniadau ar gyfer manylion y cynigion tirlunio meddal eu llunio gan ein Hymgynghorwyr Tirlunio - Tirlun Design Associates (TDA). Cyfeiriwch at luniad rhif TDA.2607.01 Manylion y Cynigion Tirlunio Meddal a lluniad rhif TDA.2607.02. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys Manyleb Tirlunio a Chynllun Rheoli.

Mae ardaloedd tirlunio caled a meddal wedi'u nodi'n glir yn y cynigion. Bydd y coed o amgylch y safle yn cael eu cadw i'r graddau bod hynny'n bosibl, heblaw am y rheini bydd yn rhaid eu torri i greu'r fynedfa newydd yn y gogledd, ond bydd ardaloedd newydd o goed yn cael eu plannu yn eu lle ger y fynedfa i'r adeilad yn y de yn yr Ardal Ecoleg ac ar hyd y llwybr i'r de, lle bo hynny'n ddichonadwy.

Hefyd wedi'u cynnwys yn y cynigion mae manylion seddau, offer chwarae a llochesi. Yn ne'r safle mae'r ardaloedd Ecoleg, sydd hefyd yn erddi dŵr glaw, gweirglodd a'r Pant Sych. I'r de o'r adeilad ei hun bydd ardal ddysgu awyr agored yn cynnwys gazebo â tho a thwmpath ar gyfer adrodd straeon.

7.0 Diogelwch Cymunedol

- 7.1 Mae diogelwch disgyblion, staff, ymwelwyr a'r gymuned gyfagos yn ystyriaeth hollbwysig i'r AALI wrth ddylunio, cynllunio a gweithredu cyfleusterau addysg.

Byddwn yn ymgynghori â Swyddog Lleihau Trosedd trwy Ddyluniad Heddlu Gwent (DOCO) a bydd unrhyw argymhellion a dderbynnir yn cael eu gweithredu yn y dyluniad. Hefyd, bwriedir i'r adeilad gael ei adeiladu yn unol ag egwyddorion canllawiau Diogelu Ysgolion trwy Ddyluniad (Secured by Design (SBD) in Schools). Y nod yw lleihau troseddu yn yr amgylchedd adeiledig a gwella safonau diogelwch.

Mae'r DOCO fel arfer yn darparu argymhellion mewn perthynas â rhai o'r meysydd isod. Bydd y rhain yn cael eu mireinio ac ychwanegir atynt wrth i fanylion y dyluniad gael eu datblygu.

- Uchder ffens yr ysgol
- Rheoli cerbydau y tu allan i oriau
- Plannu amddiffynnol ac ystyriaethau tirlunio
- Llwybr diogel, mannau gollwng a chasglu
- Arwyddion
- Mynediad i'r Gymuned
- Parcio ar gyfer beiciau modur a beiciau
- Mannau cyfarfod trafferthus

Mae'r ystyriaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y dyluniad:

- 7.2 Mae'r ysgol newydd o fewn ffiniau safle'r ysgol flaenorol ac felly mae darn o ffens palisâd uchel yng ngorllewin a gogledd y safle a hefyd ar hyd y ffin ddeheuol wrth ochr y ffordd fynediad bresennol ac yn y maes parcio isaf. Yn ogystal â hyn, bydd ffensys rhwyllwaith dur wedi'i weldio 2.1m o uchder yn cael eu codi o amgylch yr adeilad. Y tu mewn i'r terfyn hwn bydd rheiliau is 900mm o uchder o amgylch yr ardaloedd chwarae.

- 7.3 Bydd rhieni yn gollwng eu plant y tu hwnt i'r ffin ogleddol, a bydd nifer bach o leoedd parcio ar gyfer staff a pharcio hygyrch ar y safle. Bydd hyn yn atal traffig yr ysgol gynradd rhag ychwanegu at y tagfeydd i'r de ger prif faes parcio'r staff a'r ardaloedd bysiau.

Bydd cerbydau nwyddau hefyd yn defnyddio'r fynedfa newydd yn y gogledd i gyrraedd y man parcio dynodedig y tu allan i neuadd yr ysgol a'r gegin.

Bydd beiciau modur yn parcio ym maes parcio'r gogledd.

Bydd arwyddion ychwanegol yn nodi rheolau'r safle a bydd terfynau cyflymder (5mya) yn cael eu defnyddio ar draws y safle.

- 7.4 Bydd maes parcio'r staff sydd o fewn ffin y safle ger mynedfa'r gogledd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned 'y tu allan i oriau'.

- 7.5 Arwyddion: bydd yr adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi'u nodi'n glir ar arwyddion.

- 7.6 Mynediad i'r Gymuned: bydd y Neuadd a'r prif Gyntedd ar agor a bydd modd cael mynediad i'r ardaloedd hyn heb agor y prif adeilad. Mae cyntedd y brif fynedfa wedi'i gloi'n ddiogel rhag gweddill yr adeilad a bydd modd rheoli mynediad i'r drysau mewnol.

- 7.7 Mae ardaloedd cyfarfod trafferthus wedi cael eu dileu trwy ddyluniad lle bo'n bosibl. Mae ystafelloedd dosbarth a gweithgareddau'r ysgol yn edrych allan ar yr ardaloedd cymdeithasol allanol.

Yn ogystal â hyn, bydd y canlynol yn cael eu cynnwys:

- 7.8 Bydd y ffenestri a'r drysau yn bodloni safonau Diogelu trwy Ddyluniad.
- 7.9 Bydd system chwistrellu 'diogelwch eiddo' safonol yn cael ei gosod yn unol â BS EN 12845.
- 7.10 Bydd system Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) a reolir yn ganolog a system larwm tresmaswyr yn cael eu gosod.
- 7.11 Bydd system larwm tân categori L2 yn cael ei gosod. Bydd y system yn cynnwys prif banel larwm tân, synwryddion mwg, seinwyr a goleuadau ym mhob ystafell a goleuadau argyfwng mewnol fel rhan o ran 2 y cynllun goleuo cyffredinol.
- 7.14 Bydd y strategaeth oleuadau allanol yn cael ei chynllunio yn unol â Thabl 1 (a nodiadau cysylltiedig) nodiadau Canllaw'r ILE ar gyfer lleihau golau ymwithiol, 2005.

8.0 Amgylchedd Cynaliadwy

8.1 Cynaliadwyedd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a'r amgylchedd. Cynigir bod y mesurau canlynol yn cael eu cynnwys yn nyluniad y cynllun:

- Bydd y cynllun yn ennill gradd 'Ardderchog' BREEAM.
- Byd y cynllun yn ennill gradd A yr EPC.
- Bydd draenio dŵr wyneb yn gyfyngedig i gyfraddau dŵr ffo y safle fel y'u cytunir gan Adran Ddraenio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Bydd rhes o baneli PV yn cael ei gosod ar y to yn wynebu'r de-orllewin.
- Awyru naturiol.
- Defnyddiau gradd A neu A+ yn unol â Chanllaw Gwyrdd Manylebau BRE / *Green Guide to Specification*.

8.2 Gwastraff

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu ar gyfer y safle newydd. Bydd ardal storfa newydd gyda storfeydd ar wahân ar gyfer defnyddiau y gellir eu hailgylchu/na ellir eu hailgylchu yn cael ei darparu mewn ardal amgaeedig ar wahân ger y gegin, a fydd o faint addas i'r ysgol newydd.

8.3 Sŵn

Fel rhan o'r broses BREEAM, mae arolwg acwsteg yn cael ei lunio i ganfod lefelau acwsteg y safle. Bydd adroddiad pellach yn cael ei lunio ar gyfer y cynigion yn unol â gofynion Acwsteg Ysgolion BB93.

8.4 Golau

O ran llygredd golau, bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried. Bydd y strategaeth goleuadau allanol yn cael ei dylunio yn unol â Thabl 1 (a'r nodiadau cysylltiedig) o nodiadau Canllaw yr ILE ar gyfer lleihau golau ymwthiol, 2005.

8.5 Ansawdd Aer

Heblaw am y gofynion gwresogi ac awyru cyffredinol, ni fydd unrhyw fygdarthau yn cael eu cynhyrchu gan unrhyw brosesau yn yr adeilad.

8.6 Draenio

Isod gwelir datganiad cyn cyflwyno cais cynllunio gan y Peirianwyr Sifil Curtins.

8.7 Datganiad Draenio Cyn Cyflwyno Cais Cynllunio

Draeniau Presennol

Carthffosydd Cyhoeddus

Mae Cofnodion Asedau DCWW yn dangos nad oes unrhyw garthffosydd cyhoeddus yn ardal yr ailddatblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, mae dwy garthffos gyfunol fawr o ran diamedr (975mm ac 825mm diamedr) yn rhedeg o dan y cae chwarae i'r gorllewin. Maent yn cyfuno ac yn dod yn 1350mm o ddiamedr gerllaw cornel dde-orllewinol y safle, gan ollwng i gyfeiriad y de. Mae'r mapiau yn awgrymu bod pibell ollwng gorlif i afon Ebwy yn y man hwn. Mae'r map hefyd yn dangos bod darn o'r garthfos dŵr budr hefyd yn gwasanaethu'r tai yn y cul-de-sac i'r de o'r safle ond nid yw'n amlwg ble mae'r garthffos hon yn gollwng.

Mae'r carthffosydd hyn yn ddigon pell o'r adeilad newydd arfaethedig i beidio ag ymyrryd â hawliau hawddfaint Dŵr Cymru Welsh Water.

Draeniau Preifat

Mae'r adeilad arfaethedig wedi'i leoli ar safle hen gaeau chwarae a oedd yn gysylltiedig â hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn sydd bellach wedi'i dymchwel. Cynhaliwyd arolwg Teledu Cylch Cyfng (CCTV) o'r draeniau preifat o amgylch hen adeiladau'r ysgol. Dangosodd hwn fod y safle yn cael ei wasanaethu gan rwydweithiau dŵr wyneb a dŵr budr. Mae'r rhain yn mynd i gyfeiriad cornel de-orllewinol y safle lle mae'n debygol eu bod yn gollwng i'r afon a'r garthffos gyfunol yn y drefn honno.

Nid oes unrhyw ddraeniau yn lleoliad arfaethedig yr adeilad newydd.

8.8 Parthau Llifogydd

Mae'r datblygiad 30m – 100m i ffwrdd o afon Ebwy. Mae Map Perygl Llifogydd ar-lein Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod ffin safle'r datblygiad arfaethedig yn cael ei groesi gan yr ardal perygl llifogydd sy'n gysylltiedig ag afon Ebwy.

Mae map Cyfoeth Naturiol Cymru yn ffigur 1 yn dangos bod yr ardaloedd Perygl Isel a Pherygl Canolig yn gorgyffwrdd ag ardal o'r maes parcio presennol a fydd yn cael ei chadw i'w hailddefnyddio gan yr ysgol newydd. Yr ardal hon yw rhan isaf y safle ac yn seiliedig ar lefelau'r arolwg topograffig byddai lefel uchaf dŵr llifogydd tua 77.4m AOD. Mae'r adeilad newydd arfaethedig ar lwyfandir a bydd y lefel llawr terfynol tua 80.1m AOD. Gan fod hyn tua 3m yn uwch na lefel llifogydd eithafol nid yw'r adeilad mewn perygl o lifogydd hyd yn oed wrth ystyried effeithiau newid hinsawdd. Fodd bynnag, bydd angen ystyried mesurau lliniarol ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd achlysurol yn y maes parcio.

Mae ardaloedd Perygl Isel hefyd wedi'u dangos yn ardal yr hen adeiladau. Y bwriad yw creu ardal yma ar gyfer gollwng plant o geir/bysiau. Bydd angen ystyried mesurau lliniarol ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd achlysurol yn yr ardal hon hefyd.



Ffigur 1 – Darn o'r Map Llifogydd (sylwer – mae'r map hwn yn dangos adeilad yr hen ysgol cyn iddo gael ei ddymchwel)

8.9 Cynigion ar gyfer Draeniau Dŵr Wyneb

Mae arfer gorau a'r gofynion Rheoleiddiol cyfredol yn nodi y dylai draeniau dŵr wyneb ollwng yn unol â'r hierarchaeth ddraenio ganlynol:

1. Ymdreiddio i'r ddaear
2. Gollwng i gwrs dŵr
3. Gollwng i garthffos dŵr wyneb
4. Gollwng i garthffos gyfunol.

Cafodd profion suddfannau dŵr eu cynnal ar y safle fel rhan o'r Archwiliad Daear Cam 2 gan White Young Green ym mis Mehefin 2019. Adroddwyd bod yr amodau daear yn amrywiol iawn ac felly roedd cyfraddau ymdreiddio yn amrywiol iawn yn y ddau safle profi. Ar sail y canlyniadau hyn, ystyrir na fydd defnyddio ymdreiddiad fel y prif ddull o waredu dŵr yn hyfyw, er y bydd hyn yn cael ei adolygu yn dilyn rhagor o brofion ar y safle ar leoliadau priodol wrth i'r cynllun ddatblygu.

Mae'r safle wrth ymyl afon Ebwy a dangosodd arolwg o'r draeniau a oedd yn gwasanaethu adeiladau'r hen ysgol fod rhwydwaith dŵr wyneb yn gollwng i gyfeiriad y cwrs dŵr hwn. Nid yw gollwng i'r cwrs dŵr yn ddewis hyfyw yn y dyfodol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Bydd seilwaith y draeniau presennol yn cael ei dargedu ar gyfer ei aildefnyddio, yn amodol ar gadarnhad yn dilyn archwiliadau pellach bod y system dŵr wyneb yn gollwng i afon Ebwy ac nid i'r system garthffos gyhoeddus y mae'n rhaid ei chroesi er mwyn cyrraedd yr afon.

8.10 Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Cynllunio a'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB), bydd angen cyfyngu ar y dŵr wyneb sy'n gollwng o'r safle i ddŵr wyneb tir glas, i leihau unrhyw berygl o lifogydd i lawr yr afon. O'r herwydd, bydd y dŵr wyneb yn cael ei arafu ar y safle ar gyfer digwyddiad newid hinsawdd 1 mewn 100 + 30%.

Lluniwyd strategaeth ddraenio amlinellol ar gyfer y safle sy'n nodi y bydd y dŵr wyneb ffo o'r adeilad arfaethedig yn cael ei gario o'r pibelli dŵr glaw i balmart athraidd yn yr ardaloedd arwyneb caled gan ddefnyddio blychau tryledu. Yna bydd y dŵr yn gollwng i bantiau a leolir ar hyd ffin y safle, bydd y rhain yn cario'r dŵr i bwl arafu yn yr ardal Ecoleg. Bydd y dŵr sy'n gollwng o'r pwll yn cael ei gyfyngu i ddŵr ffo tir glas a bydd yn cysylltu â'r draen presennol ar y safle y rhagdybir ei fod yn gollwng i'r cwrs dŵr presennol.

Bydd y maes parcio presennol yn cael ei gadw fel y mae, gydag un wyneb newydd a leinin gwyn felly rhagdybir y bydd y draeniau presennol yn cael eu cadw.

Yn unol â phroses y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB), mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau sy'n rhan o'r datblygiad, mae'r rhain yn cynnwys:

- To Gwyrdd/Glas
- Ansawdd Dŵr
- Aildefnyddio dŵr glaw
- Bioamrywiaeth ac Amwynder

To Gwyrdd/Glas:

Mae to'r adeilad arfaethedig yn goleddfu dwyffordd ac yn mesur tua 20m o led felly mae'n ysgafn. Byddai defnyddio to gwyrdd/glas yn anaddas felly oherwydd byddai'r llwyth 'marw' yn cynyddu'n sylweddol gan gyfyngu ar faint o dunelli o ddur fyddai eu hangen.

Ansawdd Dŵr:

Bydd ansawdd y dŵr yn gwella drwy ddefnyddio 'Trên Rheoli' Systemau Draenio Cynaliadwy.

Aildefnyddio Dŵr glaw:

Gan y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel ysgol gynradd, nid yw'n addas i ailgylchu dŵr glaw ar raddfa fawr, yn enwedig yn yr adeilad ei hun. Felly bydd unrhyw ddŵr glaw a gaiff ei aildefnyddio yn gyfyngedig i ddefnydd yn gysylltiedig â chynnal tirlunio.

Bioamrywiaeth / Amwynder

Mae'r strategaeth ddraenio arfaethedig yn cynnwys nodweddion SuDS a fydd yn ychwanegu at fioamrywiaeth ac amwynder y safle. Bydd y rhain, ynghyd â chynnwys yr ardal addysgu awyr agored a'r ardal ecoleg yn golygu bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r canllawiau SAB.

Draenio Dŵr Budr

Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys toiledau, sincipiau yn yr ystafelloedd dosbarth a chegin. Mae'r gegin yn ddigon mawr i fod angen rhyng-gipiwr saim i leihau'r brasterau, olew a saim sy'n cael eu gollwng i'r system garthffosydd gyhoeddus. Mae nifer a dosbarthiad y cyfarpar dŵr budr yn golygu bod angen creu parth gwasanaethau wedi'i gloddio o amgylch perimedr yr adeilad lle na fydd nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu defnyddio fel arfer.

Bydd datganiad draenio llawn yn cael ei gynnwys gyda'r cais hwn hefyd gan Curtins, ynghyd â Lluniad strategaeth SuDS dangosol 077517 – CUR – XX – DR- C – 90002 – P01.

8.11 Amodau Tir

Comisiynwyd WYG Environment Planning Transport Limited i lunio adroddiad archwiliad o'r tir ac fe'i cyflwynwyd i gefnogi'r cais hwn.

Mae crynodeb o'r adroddiad hwnnw fel a ganlyn:

Geodechnegol

Gall sylfeini bas ar y gwaddodion llifwaddodol mân-ronynnog bas a'r gwaddodion bras-ronynnog gael eu dylunio i ganiatáu gwasgedd cynnal net o 150kPa ar gyfer sylfeini sy'n llai na 0.7m o led.

Os oes angen llwythi mwy yna gellir sicrhau capasiti cynnal pwysau uwch drwy osod sylfeini ar ddefnyddiau bras-ronynnog yn unig, fodd bynnag, byddai hyn yn amodol ar gynnal asesiad mwy manwl o'r gwaddodi, yn bennaf yn y clai a'r silt gwaelodol.

O ystyried natur ansefydlog y priddoedd llifwaddodol, y dŵr daear uchel a natur gywasgedig y clai a'r silt, gallai pyst sylfaen fod yn ddewis mwy ffafriol. Gall slabiau llawr gynnal pwysau.

Halogi'r Tir

Prin iawn oedd y 'Tir Gwneud' a gofnodwyd ar y safle, ac ni ystyrir bod unrhyw halogiad yn berygl i ddatblygiad yr ysgol gynradd.

Mae mapiau hanesyddol yn awgrymu y gall fod tomenni sbwriel ar ochr ddeheuol y safle. Ni wnaeth archwiliadau ar leoliadau yn yr ardal hon awgrymu bod unrhyw halogiad ac nid yw cynigion y datblygiad presennol yn ymestyn i'r rhan hon o'r safle.

Yn yr un modd, ystyrir bod y Tir Gwneud cyffredinol yn Risg Isel i'r amgylchedd eang (dŵr wyneb a dŵr daear), gyda risg uwch (Cymedrol i isel) yn gysylltiedig â'r hen domenni sbwriel. Mae cynnig ar gyfer maes parcio arwyneb caled newydd yn yr ardal hon ac argymhellir bod briff gwylio yn ei le yn ystod y gwaith cloddio.

Asbestos

Mae samplau asbestos wedi eu casglu o'r 'Tir Gwneud Cyffredinol' ar y safle ac yn ôl-troed hen adeiladau'r ysgol.

Un sampl yn unig o'r Tir Gwneud cyffredinol a oedd yn nodi bod defnyddiau sy'n cynnwys asbestos yn bresennol ac roedd profion meintioli o'r crynodiadau yn is na therfyn canfod y labordy.

Nodir hefyd bod y sampl hwn wedi dod o'r tu hwnt i ardal y datblygiad arfaethedig presennol ac felly, ni ystyrir bod angen cynlluniau rheoli risg ychwanegol.

Dylid nodi nad yw cynigion y datblygiad presennol yn ymestyn i'r ardal hon o'r safle ac ni ystyrir bod angen Cynllun Rheoli Asbestos i gefnogi'r datblygiad arfaethedig presennol.

Nwy Daear

Mae gwaith o fonitro nwy daear o chwe ymweliad wedi dangos crynodiadau isel o garbon deuocsid a methan ynghyd â chyfraddau llif isel. Cafodd gwaith monitro ei gynnal yn ystod cyfnodau pan oedd gwasgedd atmosfferig yn isel, yn gostwng, ac yn sefydlog ac felly ystyrir bod y data monitro wedi cynnwys rhai o'r amodau gwaethaf.

Mae'r safle wedi'i osod yn y categori Sefyllfa Nodweddiadol 1 lle nad yw mesurau amddiffyn rhag nwy yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mewn datblygiadau newydd. Nid yw mesurau amddiffyn rhag Radon yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r safle, cyflwynir yr argymhellion canlynol yn amlinellu'r gofynion ar gyfer archwiliadau pellach o'r ddaear ac argymhellion cyffredinol eraill i gefnogi'r datblygiad arfaethedig presennol:

- Profi a chategoreiddio unrhyw briddoedd gormodol i benderfynu a ddylid eu hailddefnyddio neu eu gwaredu;
- Dylid rhoi gwybod i'r gweithwyr daear am natur y datblygiadau hanesyddol ar y safle, gan gynnwys y broses o waredu asbestos a nodi bod rhywfaint o ffibrau asbestos wedi'u canfod mewn dau sampl ar y safle. Dylai gwaith gael ei gwblhau yn dilyn briff gwyllo i nodi unrhyw ddefnyddiau sy'n cynnwys asbestos ac amlinellu'r gweithdrefnau i asesu a rheoli unrhyw briddoedd sy'n cael eu heffeithio.
- Dylid llunio adroddiad dylunio geodechnegol i asesu'n llawn y potensial ar gyfer sefydlogi'r tir unwaith y bydd y llwythi gofynnol a'r math o sylfeini wedi cael eu cadarnhau.

8.12 Gwastraff Adeiladu

Fel rhan o ofynion y prosiect, wrth godi'r adeilad bydd yn rhaid i'r Contractwr sicrhau bod o leiaf 15% o gyfanswm y defnyddiau adeiladu, yn ôl eu gwerth, yn deillio o gynnwys wedi'i aildefnyddio a'i ailgylchu. Bydd y Contractwr yn defnyddio Offeryn Gwastraff Net WRAP (www.wrap.org.uk/nwtool) i feintoli hyn, yn unol â gofynion ariannu Llywodraeth Cymru ac yn cyflwyno adroddiad terfynol yn dilyn y ganran derfynol o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu a ddefnyddiwyd.

9.0 Symudiadau o fewn y datblygiad ac i mewn ac allan ohono

9.1 Mae Datganiad Traffig (TS) wedi'i gynnwys fel rhan o'r wybodaeth cyn cyflwyno Cais Cynllunio ac mae'r manylion wedi'u crynhoi isod:

Crynodeb

Mae'r Datganiad Trafnidiaeth hwn wedi cael ei lunio gan RPS i gefnogi cais ar gyfer adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, Abercarn.

Mae Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon ar Ffordd Gwyddon, Abercarn, Casnewydd. Mae'r ysgol tua 10 milltir i'r gogledd o ganol Casnewydd. Mae 234 o fyfyrwyr a 25 aelod staff ar y safle presennol. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli ar safle gwag Ysgol Uwchradd Cwmcarn, i'r gogledd o'r A467 yng Nghwmcarn. Bydd y cynllun ad-leoli ac ehangu yn golygu bod modd darparu ar gyfer cyfanswm o tua 574 o fyfyrwyr a 50 aelod staff.

Mae'r ysgol arfaethedig o fewn cyrraedd hwylus i lwybrau lleol, lonydd beiciau a safleoedd bysiau. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teithio i'r ysgol mewn bws, oherwydd dalgylch eang yr ysgol.

Mae dwy fynedfa i'r safle, bydd y fynedfa i'r de yn cael ei defnyddio gan fysiau a staff ac mae'n cynnwys lle parcio ar gyfer 71 car, y mae 54 ohonynt yn y maes parcio deheuol isaf ac 17 lle parcio ar y safle, y mae 4 ohonynt yn rhai hygyrch. Mae bae bysiau yn ne'r safle hefyd. Bydd y fynedfa ogleddol yn cael ei defnyddio gan rieni i ollwng a chodi eu plant ac mae lle ar gyfer 61 car. Bydd darpariaeth ar gyfer parcio beiciau yn unol â safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynigir bod modd darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y staff a myfyrwyr ar y safle. Bydd llai o staff a myfyrwyr o'u cymharu â'r niferoedd yn hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

Casgliad

Y casgliad yw na fydd yr ailddatblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol gan fod y cynnig yn darparu ar gyfer llai o staff a myfyrwyr na'r ysgol flaenorol yn y lleoliad hwn. Felly, bernir nad yw'r effaith yn ddifrifol.

Mae mynediad i'r ysgol yn dda gan ddefnyddio pob dull teithio, ac mae digon o le i staff barcio, ardaloedd gollwng / casglu, a chyfleusterau ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Cyn i'r ysgol agor bydd yn llunio Cynllun Teithio er mwyn annog Teithio Llesol gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded neu'n teithio ar feic, yn ogystal ag ar dtrafnidiaeth gyhoeddus.

Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn unol â pholisi cynllunio trafndiaeth llywodraeth ganolog a llywodraeth leol drwy ddarparu mynediad diogel ac addas ac mae'n darparu ar gyfer teithio cynaliadwy heb effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. O'r herwydd, nid oes unrhyw resymau yn gysylltiedig â thrafnidiaeth pam na ddylid caniatáu'r cynnig i adleoli ac ehangu'r ysgol.

9.2 Mae symudiad diogel ac effeithiol cerbydau ar y safle yn ffactor sydd wedi cael ei ystyried yn ystod y broses ddylunio wrth ddiffinio cynllun y safle a'r ardaloedd parcio.

9.3 Mae llwybrau cerddwyr i'r safle wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod llwybrau diogel yn cael eu creu i gyrraedd yr adeilad.

- O gyfeiriad y de-ddwyrain, bydd cerddwyr yn cael eu cyfeirio ar hyd llwybr newydd, drwy gât ar gyfer cerddwyr ac ar hyd y llwybr diogel presennol, gan arwain yn uniongyrchol at yr ysgol. Bydd llwybr newydd yn cael ei gynnwys i gysylltu'r ardal lle mae bysiau yn parcio â'r llwybr mynediad newydd i'r ysgol.
- O gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, bydd cerddwyr yn cyrraedd ar y llwybr troed presennol sy'n arwain o ffordd yr A467. Bydd y llwybr hwn yn cael ei ymestyn i arwain yn uniongyrchol at safle'r ysgol.

9.4 Bydd cerbydau yn dod i mewn ac allan o'r safle ar hyd rhwydwaith priffordd bresennol yr A467. Bydd dau bwynt mynediad, sef yr un presennol a oedd yn gwasanaethu'r ysgol flaenorol, drwy Chapel Farm Terrace ac o gyfeiriad y gogledd drwy'r maes parcio cyhoeddus presennol a fydd yn arwain at fynedfa newydd y gogledd. Bydd 16 lle parcio yn cael eu darparu ar gyfer staff a bydd mynediad at 4 lle parcio hygyrch drwy'r fynedfa newydd hon i'r gogledd. Bydd cerbydau sy'n danfon nwyddau a cherbydau gwasanaethau argyfwng hefyd yn defnyddio'r fynedfa hon.

9.5 Bydd y bae ar gyfer bysiau yn cael ei leoli yn ne'r safle oddi ar y ffordd fynediad bresennol drwy Chapel Farm Terrace a bydd yn cael ei ddefnyddio gan fysiau i barcio'n achlysurol, e.e. ar gyfer teithiau ysgol.

9.6 Bydd staff ac ymwelwyr yn parcio i'r de yn y maes parcio isaf presennol, a bydd y mynediad unwaith yn rhagor drwy'r ffordd fynedfa bresennol drwy Chapel Farm Terrace. Bydd defnyddwyr y fynedfa hon yn cael eu cyfeirio at y llwybr newydd sy'n arwain i'r fynedfa newydd i gyfeiriad y de-ddwyrain.

9.7 Bydd arwyddion priodol yn cael eu gosod yn yr ardaloedd hyn. Gofynnwyd am gyngor Adran Priffyrdd yr Awdurdod ac mae unrhyw argymhellion ychwanegol wedi cael eu cynnwys.

10.0 Hygyrchedd

- 10.1 Un o ofynion sylfaenol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw bod yn rhaid i gyfleusterau fod yn gwbl hygyrch ar gyfer pob defnyddiwr. Mae'n ofynnol i ardaloedd allanol gydymffurfio â safonau hygyrchedd o ran rampiau, llwybrau, a lefelau. Yn yr un modd, mae'n rhaid i ardaloedd mewnol fodloni gofynion rheoliadau rheoli adeiladu. Bydd y datblygiad arfaethedig yn sicrhau mynediad cyfartal ni waeth beth yw'r nam corfforol neu feddyliol
- 10.2 Bydd Grŵp Mynediad yr Awdurdod yn cael ei gynnwys mewn ymgynghoriad. Fel rhan o brotocol Mynediad yr Awdurdod, bydd cyfarfodydd gyda'r Grŵp Mynediad yn parhau drwy gydol y prosiect i sicrhau bod materion yn cael sylw priodol.

Atodiad A

Lluniadau:

Cyflwynir y lluniadau a ganlyn:

4661 P100 Cynllun Lleoliad y Safle
4661 P101 Cynllun o'r Safle Presennol
4661 P102 Arolwg Topograffyddol
4661 P103 Cynllun Arfaethedig y Safle
4661 P104 Y Llawr Gwaelod Arfaethedig yn ei Gyd-destun
4661 P105 Cynllun o'r Llawr Gwaelod Arfaethedig yn unig
4661 P106 Gweddlluniau Arfaethedig
4661 P107 Golygon Nodweddiadol Arfaethedig
4661 P108 Cynllun o'r To Arfaethedig
4661 P109 Delweddau Arfaethedig

Cynigion Tirlunio gan TDA

TDA .2607.01 Manylion y Tirlunio Meddal

TDA .2607.02 Manylion a Lluniau

Cynigion Amlinellol y SuDS gan Curtins

077517 – CUR – XX – DR- C – 92005 – Taflen Strategaeth Ddraenio Arfaethedig 1

077517 – CUR – XX – DR- C – 92006 – Taflen Strategaeth Ddraenio Arfaethedig 2